

**CYNGOR DYFFRYN MORGANNWG**  
**(LLEFYDD PARCIO ODDI AR Y STRYD)**  
**(GORFODAETH SIFIL) (DIWYGIAD) GORCHYMYN RHIF 4 2026**

1. Rhoddir hysbysiad bod Cyngor Bro Morganwg, wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŷer galluogi arall, yn bwriadu gwneud Gorchymyn i ddiwygio'r darpariaethau.  
sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymynion a bennir yn Atodlen 1 isod.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ar wefan y Cyngor yn [www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices) a rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i [C1V@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:C1V@valeofglamorgan.gov.uk) erbyn **dydd Gwener 19eg Mehefin 2026** a rhaid iddo gynnwys y sail dros eich gwrthwynebiad.
3. Cynghorir unigolion sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod y Cyngor hwn wedi'i rwymo'n gyfreithiol i wneud unrhyw sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r Gorchymyn arfaethedig yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd.

**ATODLEN 1**

Mae'r Gorchymynion Rheoleiddio Traffig canlynol i'w diwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Mannau Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Bro Morganwg (Gorfodi Sifil) 2013**

**Mannau Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Bro Morganwg (Gorfodi Sifil) (Diwygio)**  
Gorchymyn 2014

**Mannau Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Bro Morganwg (Gorfodi Sifil) (Diwygio)**  
Gorchymyn 2020

**Mannau Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Bro Morganwg (Gorfodi Sifil) (Diwygio)**  
Gorchymyn 2025

**ATODLEN 2**

Ychwanegir y canlynol at y Gorchymynion Rheoleiddio Traffig uchod

**Yn 'Dehongliad' Ychwanegwch y canlynol:**

**'Cyfnod Parcio Am Ddim'** Bydd y Cyfnod Parcio Am Ddim yn uchafswm o 2 awr neu unrhyw cyfnod arall fel y cyfeirir ato yn y gorchymyn neu ar yr arwyddion gwybodaeth am ffioedd yn y maes parcio. Ar ôl i'r cyfnod parcio am ddim ddod i ben, bydd cerbydau'n gadael y maes parcio heb ddychwelyd o fewn 2 awr.

Fel arall, gall y cerbyd aros yn y maes parcio ar ôl i'r Parcio Am Ddim ddod i ben.

Cyfnod ar yr amod bod y tâl parcio priodol yn cael ei dalu yn unol â'r gorchymyn a'r arwyddion gwybodaeth am Daliadau yn y maes parcio.

Dyddiedig y 28ain dydd hwn o Fai 2026  
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai  
Cyngor Bro Morganwg,  
Depot yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.